# GORCHYMYN AMRWYIAD SIR GAERFYRDDIN (LED-LED Y SIR) ARDAL BARCIO ARBENNIG (TRWYDDEDAU PARCIO DIGIDOL I BRESWYLWYR A CHODIADAU PRIS TRWYDDEDAU) 2026

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”), wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i 2(3), 4, 32(1), 35, 45, 46, 49, 51, 53, 122(1) a 122(2) o, a Rhan IV o Atodlen 9 i, Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y’i diwygiwyd) (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”), Deddf Rheoli Traffig 2004 a phwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1 Mae “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Rhydaman) Ardal Parcio Arbennig (Mannau Parcio i Breswylwyr) 2004”, “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) Ardal Parcio Arbennig (Mannau Parcio i Breswylwyr) 2004”, “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llanelli) Ardal Parcio Arbennig (Mannau Parcio i Breswylwyr) 2004” a “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (ac eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) Ardal Parcio Arbennig (Mannau Parcio i Breswylwyr) 2004” (y cyfeirir atynt gyda’i gilydd fel ‘y Gorchmynion Cydgrynhoi’), fel y’u hamrywiwyd wedyn, yn cael eu hamrywio ymhellach drwy hyn fel a ganlyn:

1.1 Ychwanegir y diffiniadau canlynol i’r Gorchmynion Cydgrynhoi:

Mae **“Trwydded Barcio Digidol i Breswylwyr”** yn golygu cofnod electronig o drwydded barcio i breswylydd sydd wedi’i gofrestru i gerbyd drwy’r system drwyddedau electronig.

Mae **“System Trwyddedau Electronig”** yn golygu system gyfrifiadurol a weithredir gan y Cyngor neu ei asiant awdurdodedig, sy’n hwyluso ac yn cofnodi manylion yn ymwneud â thrwyddedau parcio i breswylwyr, ac sy’n gallu rhyngwynebu â dyfeisiau llaw.

1.2 Ychwanegir paragraff newydd (a)(iii) at ddiffiniad 'Safle Perthnasol' yn y Gorchmynion Cydgrynhoi:

Mae "safle perthnasol", yn ymwneud â:

(a) bathodyn person anabl, tystysgrif hepgoriad neu drwydded barcio, yn golygu

…

(iii) yn achos trwydded barcio ddigidol i breswylwyr, ni fydd unrhyw ofyniad i arddangos y drwydded ar y cerbyd y mae'n ymwneud ag ef.

1.3 Bydd Erthygl 5(i) yn y Gorchmynion Cydgrynhoi yn cael ei ddisodli gan y canlynol:

(i) Yn ddarostyngedig i'r hyn a nodir isod, gall unrhyw breswylydd sy'n byw o fewn parth parcio i breswylwyr a nodir ar y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn ac sydd:

(a) yn berchennog ar gerbyd o'r dosbarth canlynol, hynny yw, cerbyd teithwyr, cerbyd nwyddau, neu gerbyd i'r anabl, neu

(b) gyda chaniatâd y perchennog, yn defnyddio cerbyd o'r dosbarth hwnnw yn rheolaidd yn ystod ei gyflogaeth,

wneud cais i'r Cyngor am hyd at ddau drwydded ar gyfer ei breswylfa er mwyn gadael y cerbyd neu gerbydau mewn man parcio a bennir ym mharagraff (iv) o'r Erthygl hon, a gall cais o'r fath gael ei wneud:

i. naill ai ar ffurflen a gyhoeddir gan ac sydd ar gael wrth y Cyngor, yn cynnwys y manylion a'r wybodaeth y mae angen eu darparu; neu

ii. yn achos trwydded parcio digidol i breswylwyr, drwy gais a gyflwynir trwy system drwyddedau electronig y Cyngor,

gyda'r swm sy'n daladwy a bennir yn Erthygl 9 o'r Gorchymyn hwn.

1.4 Bydd Erthygl 8(i) yn y Gorchmynion Cydgrynhoi yn cael ei ddisodli gan y canlynol:

(i) Y tâl am i'r Cyngor gyhoeddi trwydded bapur neu drwydded barcio ddigidol i breswylwyr, sy'n ddilys am ddeuddeg mis, fydd £30.00.

1.5 Bydd Erthygl 8(ii) yn y Gorchmynion Cydgrynhoi yn cael ei ddisodli gan y canlynol:

(ii) Y tâl am gyhoeddi trwydded barcio ymwelwyr i breswylydd gan y Cyngor, sy'n ddilys am ddeuddeg mis, fydd £45.00.

1.6 Bydd Erthygl 8(iii) yn y Gorchmynion Cydgrynhoi yn cael ei ddisodli gan y canlynol:

(iii) Y tâl am gyhoeddi trwydded fusnes gan y Cyngor, sy'n ddilys am ddeuddeg mis, fydd £60.00.

1.7 Bydd Erthygl 8(iv) yn y Gorchmynion Cydgrynhoi yn cael ei ddisodli gan y canlynol:

(iv) Y tâl am gyhoeddi trwydded newydd yn lle un sydd wedi'i golli, wedi'i treulio neu wedi'i ddifrodi fydd £30.00 am bob trwydded parcio i breswylwyr a £60.00 am bob trwydded fusnes, a fydd yn ddilys am ddeuddeg mis o'r ail-gyhoeddiad, a £45.00 am bob trwydded parcio i ymwelwyr pan gaiff ei ddisodli o fewn deuddeg mis o'r ail-gyhoeddiad.

1.8 Bydd Erthygl 11 yn y Gorchmynion Cydgrynhoi yn cael ei ddisodli gan y canlynol:

11 FFURF Y TRWYDDEDAU

(a) Gellir cyhoeddi trwydded preswylydd naill ai ar ffurf ddigidol neu bapur, yn ysgrifenedig, a rhaid iddi gynnwys y manylion canlynol:

(i) marc cofrestru'r cerbyd y cyhoeddwyd y drwydded ar ei gyfer;

(ii) y cyfnod y bydd y drwydded yn parhau i fod yn ddilys, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 9(iv) o'r Gorchymyn hwn;

(iii) arwydd bod y drwydded wedi'i chyhoeddi gan y Cyngor; a

(iv) y parth parcio i breswylwyr lle mae'r drwydded yn ddilys.

(b) Rhaid i drwydded fusnes neu drwydded ymwelwr fod ar ffurf bapur, yn ysgrifenedig, a rhaid iddi gynnwys y manylion canlynol:

(i) marc cofrestru'r cerbyd y cyhoeddwyd y drwydded ar ei gyfer;

(ii) y cyfnod y bydd y drwydded yn parhau i fod yn ddilys, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 9(iv) o'r Gorchymyn hwn;

(iii) arwydd bod y drwydded wedi'i chyhoeddi gan y Cyngor; a

(iv) y parth parcio i breswylwyr lle mae'r drwydded yn ddilys.

1.9 Bydd Erthygl 12 yn y Gorchmynion Cydgrynhoi yn cael ei ddisodli gan y canlynol:

12 ARDDANGOS TRWYDDEDAU

(i) Rhaid i unrhyw gerbyd a adewir mewn man parcio yn unol â darpariaethau Erthygl 19(ii):

(a) naill ai fod â thrwydded barcio ddigidol ddilys i breswylwyr a gyhoeddwyd ar gyfer y cerbyd hwnnw, ac nad oes angen ei harddangos; neu

(b) o ran trwyddedau papur ffisegol, arddangos trwydded ddilys a gyhoeddwyd ar gyfer y cerbyd hwnnw yn y safle perthnasol bob amser.

(ii) Er mwyn bod yn ddilys, rhaid cofrestru'r trwydded barcio ddigidol i breswylwyr ar gyfrif ar system drwyddedau electronig y Cyngor, a rhaid bod arwydd – naill ai ar ddyfais law a ddefnyddir gan y swyddog parcio neu drwy gysylltu â'r asiant awdurdodedig – bod taliad wedi'i wneud ynghyd â'r cyfnod parcio y talwyd amdano.

1.10 Bydd Erthygl 19(ii) yn y Gorchmynion Cydgrynhoi yn cael ei ddisodli gan y canlynol:

(ii) Ni fydd dim yn Erthygl 18 yn ei gwneud hi yn drosedd i achosi neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros yn unrhyw un o'r mannau parcio a nodir ar y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn, ar yr amod:

(a) bod y cerbyd yn arddangos, yn y modd a nodir yn Erthygl 12, drwydded bapur ddilys a gyhoeddwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'r cerbyd hwnnw; neu

(b) bod yna drwydded barcio ddigidol ddilys i breswylwyr, yn y modd a nodir yn Erthygl 12(ii), mewn perthynas â'r cerbyd hwnnw.

2 Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y Dydd Cyntaf o Awst, Dwy Fil a Dau Ddeg Chwech, a gellir gyfeirio ato fel 'Gorchymyn Amrwyiad Cyngor Sir Caerfyrddin (Led-led y Sir) Ardal Barcio Arbennig (Trwyddedau Parcio Digidol i Breswylwyr a Chodiadau Pris Trwyddedau) 2026'.

**RHODDIR** dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin ar y Trydydd dydd ar Ddeg o Orffennaf, Dwy Fil a Dau Ddeg Chwech.

Rhoddwyd Sêl Gyffredin

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

ar y ddogfen hon

ym mhresenoldeb:

..........................................................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**